Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 12 Chwefror 2014**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(180)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)**

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)**

Gweld y Cwestiynau

**3 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)**
NDM5423 Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) yr effaith andwyol y mae colli eu pensiynau wedi'i chael ar dros 700 o gyn-weithwyr Visteon sy'n byw yn ardal Abertawe a'r cyffiniau;

b) yr effaith ddilynol y mae colli pensiynau gweithwyr Visteon wedi'i chael ar economi Abertawe a'r cyffiniau;

c) y bydd pum mlynedd wedi mynd heibio ar 2 Ebrill eleni ers cau Visteon fel cwmni, a bod gorymdaith fawr yn cael ei threfnu yn San Steffan; a

d) bod eleni'n flwyddyn bwysig i'r ymgyrch, o ystyried y bydd achos llys Unite the Union yn erbyn Ford yn cael ei gynnal yn yr Uchel Lys yn Llundain ddiwedd 2014.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i effaith colli eu pensiynau ar weithwyr Visteon ac ar economi'r ardal lle maent yn byw.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Dileu pwynt 2.

**4 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Ardaloedd Menter (60 munud)**
**NDM5429 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei ymchwiliad i Ardaloedd Menter, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Rhagfyr 2013.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2014.

**Dogfennau Ategol:**

[Adroddiad y Pwyllgor Cyllid]
[Ymateb Llywodraeth Cymru]

**5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5430 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflawni rhaglen frys i fynd i'r afael â'r argyfwng parhaus o ran cyflenwad tai yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu popeth ar ôl 'gyflawni' a rhoi yn ei le, 'rhaglen gynhwysfawr a chynaliadwy i fynd i'r afael â'r prinder tai fforddiadwy ar gyfer pob math o ddaliadaeth'.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod diffyg mynediad at dir sydd ar gael, mynediad at gyllid ac oedi yn y system gynllunio, yn creu rhwystrau rhag adeiladu tai yng Nghymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu ffyrdd o roi hwb i'r cyflenwad tai.

**Cyfnod Pleidleisio**

**6 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5419 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Rheoli diwygio lles

Sut y mae cynghorau lleol yn defnyddio taliadau tai yn ôl disgresiwn i liniaru effaith newidiadau i fudd-dal tai.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 18 Chwefror 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 5 Chwefror 2014 i'w hateb ar 12 Chwefror 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

1. **Elin Jones (Ceredigion)**: Beth yw gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rôl ysbytai cymunedol yn nyfodol gwasanaeth iechyd Cymru? OAQ(4)0390(HSS)W

2. **Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0395(HSS)

3. **Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau o ran darpariaeth gwasanaeth iechyd yn Sir Gaerfyrddin? OAQ(4)0402(HSS) TYNNWYD YN ÔL

4. **Sandy Mewies (Delyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd mewn gofal canser yng Nghymru? OAQ(4)0389(HSS)

5. **David Rees (Aberafan)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Gynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0398(HSS)

6. **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0387(HSS)

7. **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau rheoli poen cronig yng Nghymru? OAQ(4)0399(HSS)

**8. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o effaith mentrau i gyfyngu ar nifer y bobl sy'n mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru? OAQ(4)0401(HSS)W

**9. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad i wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru wledig? OAQ(4)0388(HSS)

**10. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwr y gwasanaeth iechyd yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0393(HSS)W

**11. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Pa sicrwydd y gall y Gweinidog ei roi bod adnoddau digonol yn y GIG i ymdrin yn effeithiol â phobl sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol? OAQ(4)0386(HSS)

**12. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaethau a ddarperir gan Ysbyty Nevill Hall i boblogaeth de Powys? OAQ(4)0400(HSS)

**13. Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei weledigaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0396(HSS) **TYNNWYD YN ÔL**

**14. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0397(HSS)W

**15. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol? OAQ(4)0385(HSS) **TYNNWYD YN ÔL**

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

1. **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa bwysoliad y mae'n ei roi i bolisïau i fynd i'r afael â thlodi gwledig yn ei Gynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi cyffredinol? OAQ(4)0135(CTP)

2. **Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru)**: Pa fesurau arbennig y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i leihau nifer y menywod yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi? OAQ(4)0128(CTP)

3. **William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisïau cynhwysiant ariannol Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0132(CTP)

4. **Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru? OAQ(4)0137(CTP)

5. **William Graham (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amserlen ar gyfer gweithredu Bil Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)? OAQ(4)0139(CTP)

6. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â benthyca ar garreg drws, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig ledled Cymru? OAQ(4)0127(CTP)

7. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu cymorth Llywodraeth Cymru i Undebau Credyd yng Nghymru? OAQ(4)0129(CTP)

8. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae datblygu cynaliadwy yn ganolog i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0140(CTP)W

9. **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu faint o’r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi

sy'n seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru? OAQ(4)0134(CTP)

10. **Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn mesur effeithiolrwydd polisïau a fwriedir i leihau amddifadedd mewn ardaloedd gwledig o Gymru? OAQ(4)0130(CTP)

11. **Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau i fynd i'r afael â thlodi drwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0141(CTP) **TYNNWYD YN ÔL**

12. **Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau Llywodraeth Cymru i leihau lefelau tlodi yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0136(CTP) **TYNNWYD YN ÔL**

13. **Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Teuluoedd yn Gyntaf yn mynd rhagddo mewn perthynas â'i dargedau? OAQ(4)0131(CTP)

14. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y polisïau ar gyfer cydlyniant cymunedol y mae'n bwriadu eu cyflawni yn 2014? OAQ(4)0126(CTP)

15. **Russell George (Sir Drefaldwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo'r rhwydwaith Cyngor ar Bopeth ym Mhowys? OAQ(4)0138(CTP)